Cystadlaethau yr Adran Lenyddiaeth

Beirniaid: Y Prifardd Tudur Dylan Jones a Lois Arnold

1. Y Gadair – cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 60 llinell.

Testun: GLANNAU (Gwobr: £40 a Chadair yr Eisteddfod)

2. Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc – darn neu ddarnau o lenyddiaeth (barddoniaeth neu ryddiaith) heb fod dros 2,000 o eiriau.

Testun: AGORED (Gwobr: £40 a Thlws yr Eisteddfod)

3. Englyn – TRAETH (Gwobr: £10)

4. Telyneg neu Soned – LLWYBR (Gwobr: £10)

5. 4 Triban neu Haiku – Y TYMHORAU (Gwobr: £10)

6. Cerdd i ddysgwyr (hyd at 20 llinell) - FY MRO I (Gwobr: £10)

7. Stori fer (hyd at 1,500 o eiriau) - YR HARBWR (Gwobr: £15)

Amodau yr Adran Lenyddiaeth

Beirniaid: Y Prifardd Tudur Dylan Jones a Lois Arnold

- Gofynnir i bob darn o waith gael ei gyflwyno erbyn y 9**fed o Fedi 2023**.
- Noder rhif a theitl y gystadleuaeth ar frig pob darn o waith.
- Noder ffugenw ar waelod pob darn o waith.
- Gofynnir i gystadleuwyr gynnwys manylion dan sêl (enw, cyfeiriad a manylion cyswllt) fel atodiad wrth ddanfon eu gwaith at yr Eisteddfod.
- Anelir at gynnal seremoni'r cadeirio tua 7 **o'r gloch yr hwyr** ar ddiwrnod yr Eisteddfod**.**
- Danfoner darnau o waith yn electronig at y cyfeiriad e-bost canlynol: **eisteddfodppt@gmail.com**